

awen

B-Leaf

awen

Wood-B



YEAR

in review

2025-2026

From new opportunities and exciting projects to everyday achievements and meaningful connections, the past year has brought plenty to celebrate across B-Leaf and Wood-B.

Take a look at some of the moments that have made this year one to remember.

Looking back at the past year, I am incredibly proud of all that has been achieved across Wood-B and B-Leaf. Thank you to the dedicated staff and volunteers, whose commitment and care makes a difference to the trainees lives every day.

I am especially proud of the trainees and all they have achieved, their hard work, enthusiasm and determination is inspiring, and they make a valued contribution to Awen, our venues and the communities we support.

We are grateful to Bridgend County Borough Council for its continued support and our strong partnership. Together, we are creating meaningful opportunities for trainees to learn, grow and achieve. It is a privilege to see the difference that everyone involved in Wood-B and B-Leaf makes.

I look forward to seeing what the year ahead brings.

Richard Hughes
Chief Executive



B-LEAF & WOOD-B IN NUMBERS

35 B-LEAF
TRAINEES

19 WOOD-B
TRAINEES

**NUMBER OF TRAINEES
UNDERTAKING
ACCREDITED TRAINING:**

35 (6.6% increase
on 24/25)

**NUMBER OF
TRAINEES
UNDERTAKING
WORK
PLACEMENTS/
VOLUNTEERING
OPPORTUNITIES:** **14**

**TRAINEES WHO HAVE
COMPLETED ACCREDITED
TRAINING:**

100%

IT'S MY SHOUT SCREENING

Trainees and their guests attended It's My Shout's short film screening at Maesteg Town Hall in October 2025.

Eight short films were shown, including 'Different Now' and 'The Green Cottage' which were supported by Awen. 'Different Now' was filmed in Porthcawl in summer 2025 and features some familiar faces, as trainees were cast as extras in the film, which was shown on BBC Two Wales, BBC iPlayer and S4C.

HALLOWEEN PUMPKIN TRAIL

Trainees had a spook-tacular time volunteering at the Bryngarw Country Park Halloween Pumpkin Trail. Trainees really enjoy volunteering and it helps to build confidence and social skills by interacting with visitors. It makes a huge difference to teams across Awen to have a helping hand with events and activities.

IT'S BEGINNING TO LOOK A LOT LIKE CHRISTMAS

Every year, the delivery of Gower Fresh Christmas Trees is an exciting day, and trainees help to unload the delivery, measure the trees, and get them ready to go on sale. You can guarantee service with a smile if you purchase a tree from B-Leaf, as trainees are on hand to greet you when you arrive and help you pick out the best one. All profits made from Christmas tree sales are reinvested by Awen to support the trainee's development, so every tree purchased has a wider social impact.

CHRISTMAS CINEMA

To get in the Christmas spirit, trainees enjoyed a trip to Y Bocs Oren cinema in Maesteg Town Hall to watch 'Christmas Karma', a feel-good Christmas musical. There are many benefits to trainees attending social events like this, with many able to access opportunities that they may not otherwise have the chance to. They are able to practice transferable life skills by showing their tickets and purchasing drinks and snacks independently.



RUGBY TRIP

At the beginning of the year, nine B-Leaf and Wood-B trainees enjoyed a group trip to watch a Cardiff United Rugby Championship match at Cardiff Arms Park. This provided a unique opportunity to access a professional rugby match that trainees would not usually experience. Trainees successfully navigated a busy public environment, socialised with peers and practised patience when queuing and waiting for transport. The experience promoted social integration, confidence and belonging. They all had a great time!

CON-GRAD-ULATIONS, SUE!

Congratulations were in order for Sue Simcock, who completed a six-week placement in The Bridge in February. As well as receiving a certificate of completion, while on placement, Sue also gained the Level 2 Award in Food Safety for Catering. Well done, Sue! Completing work placements provides invaluable experience for trainees in a real working environment and helps them to develop practical and employability skills so they can progress to voluntary or paid roles.

Which leads us on to say a huge Con-GRAD-ulations to Sue who went on to graduate from B-Leaf this summer and joined Baobab Bach CIC as a voluntary kitchen and food preparation assistant!

Sue learnt many important skills at B-Leaf that she can use in her new role including planting and growing fruits and vegetables, ensuring a good understanding of a wide variety of foods.

Alongside The Bridge, we supported Sue to achieve her level 2 Food Hygiene certificate, which was a requirement for her new role. We are very proud of you, Sue, and wish you good luck!

A LITTLE GREASE, A LOT OF GOOD!

Ryan, Ethan, Jack and Ellen were 'Hopelessly Devoted' to volunteering for Bridgend Youth Theatre's production of Grease the Musical at Maesteg Town Hall. They got to watch the fantastic show and helped the team to pack away at the end of the night. Volunteering provides real-world experience, giving trainees insight into what goes on behind the scenes of a theatre production.

DAWSIO GWERIN IN Y NYTH

In the spirit of Dydd Gŵyl Dewi, trainees spent a morning learning traditional Dawsio Gwerin/Welsh folk dancing and had a lot of fun. Participating in this activity encourages teamwork, develops memory and concentration, encourages physical activity and connects trainees to their Welsh culture.



CREATING ART THROUGH NATURE

Trainees put their creative skills to the test and enjoyed using leaves, fern and flowers picked from around Bryngarw Country Park to learn how to ink print. Activities like this develop creativity and self expression, supports wellbeing, develops practical skills and encourages independence. How amazing are the results?

HITTING THE MATHEMATICS MARK!

Some of our trainees who attend Bridgend College mathematics course had a lesson in darts. The activity enabled them to not only add numbers, but to double and triple them, and then subtract them from 501. It is a great course, with certification from Agored Cymru. Trainees chose this course themselves, as a few of them play darts socially and struggled with the maths side, but now, they're right on target!

Tutor, Christopher Roberts, was recognised for his contribution to education at the Inspire! Tutor Awards 2026 back in March.

SUITED & BOOTED AT THE IT'S MY SHOUT AWARDS!

Gavin, Jason and Karl had a great evening attending the It's My Shout Award Ceremony at the ICC in Newport. They enjoyed walking on the red carpet, and talking to presenter Rhodri Owen, former Traitor Andrew Jenkins, radio and TV presenter Jason Mohammad and BBC weather presenter Sabrina Lee. Getting to watch the award ceremony and seeing themselves and the film they were involved in, on the big screen was especially exciting.

'Different Now', the film trainees were extras in, won Best Drama!

A NEW LEASE OF LIFE FOR BRYNGARW HOUSE FURNITURE

Wood-B did a fantastic job of restoring the patio furniture at Bryngarw House, ahead of the busy wedding season. The furniture was set to be replaced, but there was no need as it now looks brand new thanks to the team's hard work.



A BLOOMING BRILLIANT SUMMER

As summer arrived, trainees were busy preparing for summer bedding plants and hanging baskets to go on sale. They worked hard planting and watering and were always on hand to help customers with a smile. These hands-on experiences give trainees the opportunity to develop practical horticultural and employability skills, while building confidence, independence and a sense of responsibility. Being able to see the results of their hard work provides a real sense of achievement and helps trainees understand the care, patience and teamwork that goes into producing plants for our customers. As the heatwave continued throughout the summer, trainees made sure to stay cool indoors with plenty of ice lolly breaks.

ST FAGANS TRIP

In May, the trainees had an amazing day out to St Fagans National Museum of History. It was fantastic to go to a major visitor attraction, and everyone thoroughly enjoyed themselves. The quote of the day was "I have had so much fun today!"

We'd like to say a special thank you to the ranger team at Bryngarw Country Park, who joined us on the trip and helped make it possible!

MORE VOLUNTEERING

Gareth, Iwan and Ryan were busy bee-ing helpful at Bee Day in Bryngarw Country Park, lending a hand and getting involved with all the buzz around the event.

It was a great opportunity for the trainees to get out into the park, support the day and learn more about the important role bees and other pollinators play in our environment.

ON THE BIG SCREEN!

Trainees Jack and Gavin, alongside their families, and special guests, attended a screening of a documentary produced by It's My Shout in Maesteg Town Hall. Jack and Gavin were the stars of the documentary, which gave an insight into their lives outside of B-Leaf and Wood-B. We got to see Jack at choir practice and found out all about his passion for Elvis Presley, and Gavin showcased his fantastic football skills as we watched him in training and heard from his coaches.



WOOD-B COLLABORATES ON 'PROJECT MALCOLM'

Wood-B proudly collaborated with Bridgend College on 'Project Malcolm', an integrated health, wellbeing, and sustainability initiative.

The team were tasked with handcrafting a communal banqueting table, custom-built to bring students, community members and local employers together. They also made companion benches, built to fit the banqueting space, and a pizza oven preparation table to accompany the wood-fired oven.

For Wood-B trainees, the project provided a valuable opportunity to gain hands-on experience working to a real-world brief. Taking part in the process helped trainees develop practical woodworking skills, confidence, teamwork and problem-solving abilities, while seeing the tangible impact of their work. Knowing that the furniture they helped create will become part of a shared space for the college and wider community gave trainees a genuine sense of pride and achievement.

HANDMADE HOMES FOR HAPPY HOGS

Wood-B were busy this summer handmaking hedgehog houses to provide a safe, sheltered place for hedgehogs to rest, nest and hibernate in people's gardens this winter. They were sold in the B-Leaf shop and were very popular.

OUTDOOR THEATRE VOLUNTEERING

Gavin, Connor and Iwan lent a helping hand volunteering at the outdoor theatre performance of The Jungle Book in Brynagarw Country Park. They did a great job handing out feedback forms and making sure visitors were having a good time!

In Iwan's words: "I like volunteering because I like to help out the community!"





CUSTOMER FEEDBACK

"I had heard about B-Leaf from a friend who recommended buying our plants here. I was not aware that it was a charity and that it did such good work. I wanted to purchase some compost, and I was helped to put them in the car by a few of the adults. It is fantastic that they have so much pride in their work and the garden centre is giving them a true purpose."

Caroline, Bridgend

"I have visited B-Leaf many times, I am a keen gardener, and I have recently started a vegetable patch. B-Leaf vegetable plants are excellent value for money, and when buying them, it enables me to support a great cause. Keep up the good work!"

Daniel, Aberkenfig

TRAINEES

"Wood-B and B-Leaf are both great and make me feel happy when I go there."

Jack, Trainee

"Wood-B and B-Leaf are both invaluable in offering an outside activity, increasing independence and confidence and also providing a social outlet for people with additional needs who might otherwise have somewhat solitary lives."

Anita, Jack's mum

"I'm so proud of how Iwan has come on since joining B-Leaf. He loves going and really classes it as a job, as he keeps telling me. Everyone is so supportive and friendly. Iwan's confidence has grown tremendously since starting and he always tells me the things he loves to do whilst there. B-Leaf has helped Iwan's independence with working hard and his confidence has developed lots, with mixing with everyone. Thank you everyone it means a lot."

Alison, Iwan's mum

"Ellen enjoys attending B-Leaf. She is fully included in all tasks, and I appreciate all the staff for the opportunities that they have given her, whether that is around Bryngarw Park, in the classroom, or in Maesteg Town Hall, they enrich her life"

Narda, Ellen's mum

"I liked helping at Bee Day. I want to do more helping but find it hard to talk. I liked the course, which helped me to say hello to people. I will practise with my friend Jack"

Ryan, Trainee

"I liked being a film star but found it a bit long. Before the awards, I spoke to Dave, Jason and Emma at Wood-B, who said I could do it, that Emma and my friends would be with me, and that I could bring Mum and Dad. I was happy that I stayed for the night, and I want to do more things."

Karl, Trainee



awen

B-Leaf

awen

Wood-B



Adolygiad o'r **FLWYDDYN**

2025-2026

O gyfleoedd newydd a phrosiectau cyffrous i gyflawniadau bob dydd a chysylltiadau ystyrlon, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys digon i'w ddathlu i B-Leaf a Wood-B.

Dyma rai o'r adegau sydd wedi gwneud eleni yn un i'w chofio.

Wrth edrych yn ôl ar y flwyddyn ddiwethaf, rwy'n hynod falch o bopeth ym mae Wood-B a B-Leaf wedi'i gyflawni. Diolch i'r staff a'r gwirfoddolwyr ymroddedig, mae eu hymrwymiad a'u gofal yn gwneud gwahaniaeth i fywydau'r hyfforddeion bob dydd.

Rwy'n arbennig o falch o'r hyfforddeion a phopeth y maen nhw wedi'i gyflawni, mae eu gwaith caled, eu brwdfrydedd a'u penderfyniad yn ysbrydoledig, ac maen nhw'n gwneud cyfraniad gwerthfawr i Awen, ein lleoliadau a'r cymunedau rydyn ni'n eu cefnogi.

Rydym yn ddiolchgar i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am y gefnogaeth barhaus a'n partneriaeth gref. Gyda'n gilydd, rydym yn creu cyfleoedd ystyrlon i hyfforddeion ddysgu, tyfu a chyflawni. Mae'n ffraind gweld y gwahaniaeth y mae pawb sy'n ymwneud â Wood-B a B-Leaf yn ei wneud.

Edrychaf ymlaen at weld beth sydd i ddod y flwyddyn nesaf.

Richard Hughes
Prif Weithredwr



B-LEAF A WOOD-B MEWN NIFEROEDD

35 HYFFORDDEION
B-LEAF

19 HYFFORDDEION
B-LEAF

**NIFER YR HYFFORDDEION
SY'N YMGYMRYD
Â HYFFORDDIANT
ACHREDEDIG:**

35 (cynnydd o **6.6%**
ar 24/25)

**NIFER YR
HYFFORDDEION
SY'N YMGYMRYD
Â LLEOLIADAU
GWAITH/
CYFLEOEDD
GWIRFODDOLI:**

14

**HYFFORDDEION
SYDD WEDI CWBLHAU
HYFFORDDIANT
ACHREDEDIG:**

100%

DANGOSIAD IT'S MY SHOUT

Daeth yr hyfforddeion a'u gwesteion i ddangosiad o ffilmiau byrion It's My Shout yn Neuadd y Dref Maesteg ym mis Hydref 2025.

Dangoswyd wyth ffilm fer, gan gynnwys 'Different Now' a 'The Green Cottage' a gefnogwyd gan Awen. Ffilmwyd 'Different Now' ym Mhorthcawl yn ystod haf 2025 ac mae'n cynnwys rhai wynebau cyfarwydd gan i'r hyfforddeion gael eu castio fel ecstras yn y ffilm, a ddangoswyd ar BBC Two Wales, BBC iPlayer ac S4C.

LLWYBR PWMPEN CALAN GAEAF

Cafodd yr hyfforddeion amser brawychus yn gwirfoddoli ar Lwybr Pwmpen Calan Gaeaf Parc Gwledig Bryngarw. Mae hyfforddeion yn mwynhau gwirfoddoli ac mae'n helpu i fagu hyder a sgiliau cymdeithasol trwy ymwneud ag ymwelwyr. Mae cael help llaw mewn digwyddiadau a gweithgareddau yn gwneud gwahaniaeth enfawr i holl dimau Awen.

Y NADOLIG AR EI FFORDD

Bob blwyddyn, mae gweld coed Nadolig cwmni Gower Fresh yn cyrraedd yn ddiwrnod cyffrous, ac mae hyfforddeion yn helpu i ddadlwytho'r coed, eu mesur, a'u paratoi i'w gwerthu. Gallwch fod yn siŵr o gael gwasanaeth gyda gwên os byddwch chi'n prynu coeden gan B-Leaf, gan y bydd yr hyfforddeion wrth law i'ch cyfarch pan fyddwch chi'n cyrraedd i'ch helpu i ddewis yr un orau. Mae'r holl elw a wneir o werthu coed Nadolig yn cael ei ail-fuddsoddi gan Awen i gefnogi datblygiad yr hyfforddeion, felly mae pob coeden sy'n cael ei phrynu yn cael effaith gymdeithasol ehangach.

SINEMA NADOLIG

Er mwyn teimlo ysbryd y Nadolig, mwynhaodd yr hyfforddeion daith i sinema Y Bocs Oren yn Neuadd y Dref Maesteg i wylio 'Christmas Karma', sioe gerdd Nadoligaidd. Mae llawer o fanteision pan fydd hyfforddeion yn mynd i ddigwyddiadau cymdeithasol fel hyn, a llawer yn cael cyfleoedd na fyddent yn eu cael fel arall, ac maen nhw'n gallu ymarfer sgiliau bywyd pob dydd trwy ddangos eu tocynnau a phrynu diodydd a byrbrydau yn annibynnol.



TAITH RYGBI

Ar ddechrau'r flwyddyn, aeth naw o hyfforddeion B Leaf a Wood B ar daith fel grŵp i fwynhau gwyllo gêm Pencampwriaeth Rygbi'r Undeb Caerdydd ym Mharc yr Arfau. Roedd yn gyfle arbennig i fynd i gêm rygbi broffesiynol na fyddai'r hyfforddeion fel arfer yn mynd iddi. Llwyddodd yr hyfforddeion i lywio amgylchedd cyhoeddus prysur, cymdeithasu â chyfoedion ac ymarfer bod yn amyneddgar wrth giwio ac aros am drafnidiaeth. Roedd y profiad yn hybu integreiddio cymdeithasol, hyder a pherthyn. Cafodd pawb amser gwych!

LLONGYFARCHIADAU, SUE!

Llongyfarchiadau i Sue Simcock, a gwblhaodd leoliad 6 wythnos yn Y Bont ym mis Chwefror. Yn ogystal â derbyn tystysgrif cwblhau, tra ar leoliad, enillodd Sue Ddyfarniad Lefel 2 mewn Diogelwch Bwyd ar gyfer Arlwyo hefyd. Da iawn, Sue! Mae cwblhau lleoliadau gwaith yn rhoi profiad amhrisiadwy i hyfforddeion mewn amgylchedd gwaith go iawn ac yn helpu i ddatblygu sgiliau ymarferol a chyflogadwyedd fel y gallant symud ymlaen i rolau gwirfoddol neu â thâl.

Llongyfarchiadau enfawr hefyd i Sue a aeth ymlaen i raddio o B-Leaf yr haf hwn gan ymuno â chwmni buddiant cymunedol Baobab Bach fel cynorthwydd cegin a pharatoi bwyd gwirfoddol!

Dysgodd Sue lawer o sgiliau pwysig yn B-Leaf y gall eu defnyddio yn ei rôl newydd gan gynnwys plannu a thyfu ffrwythau a llysiau, gan sicrhau dealltwriaeth dda o amrywiaeth eang o fwydydd.

Ochr yn ochr â Y Bont, fe wnaethom gefnogi Sue i gyflawni ei thystysgrif Hylendid Bwyd lefel 2, a oedd yn ofyniad ar gyfer ei rôl newydd. Rydym yn falch iawn ohonot ti, Sue, ac yn dymuno pob lwc i ti!

GREASE YDY'R GAIR!

Roedd Ryan, Ethan, Jack ac Ellen yn 'Hopelessly Devoted' i wirfoddoli yng nghynhyrchiad Theatr Ieuentid Pen-y-bont ar Ogwr o sioe gerdd Grease yn Neuadd y Dref Maesteg. Fe wnaethon nhw wylïo'r sioe wych a helpu'r tîm i bacio popeth ar ddiwedd y noson. Mae gwirfoddoli yn rhoi profiad yn y byd go iawn, gan roi cipolwgi i hyfforddeion ar yr hyn sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni mewn cynhyrchiad theatr.

DAWSIO GWERIN YN Y NYTH

I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, treuliodd yr hyfforddeion fore yn dysgu Dawnsio Gwerin Cymreig traddodiadol a chawson nhw lawer iawn o hwyl. Mae cymryd rhan yn y gweithgaredd hwn yn annog gwaith tîm, yn datblygu cof a chanolbwyntio, yn annog gweithgarwch corfforol ac yn cysylltu hyfforddeion â'u diwylliant Cymreig.



CREU CELF TRWY NATUR

Fe wnaeth yr hyfforddeion brofi eu sgiliau creadigol a mwynhau defnyddio dail, rhedyn a blodau a gasglwyd o amgylch Parc Gwledig Bryngarw i ddysgu sut i argraffu ag inc. Mae gweithgareddau fel hyn yn datblygu creadigrwydd a hunanfyneiant, yn cefnogi lles, yn datblygu sgiliau ymarferol ac yn annog annibyniaeth. Pa mor wych yw'r canlyniadau?

TARO'R MARC MATHEMATEG!

Cafodd rhai o'n hyfforddeion sy'n mynychu cwrs mathemateg Coleg Penybont wers gan ddefnyddio dartiau. Yn ogystal ag adio rhifau, roedd y gweithgaredd yn eu galluogi i'w dyblu a'u treblu, ac yna eu tynnu o 501. Mae'n gwrs gwych, gydag ardystiad gan Agored Cymru. Dewisodd yr hyfforddeion y cwrs hwn eu hunain, gan fod rhai ohonyn nhw'n chwarae dartiau yn gymdeithasol ac yn cael trafferth gyda'r fathemateg, ond bellach, maen nhw'n taro'r targed!

Cafodd y tiwtor, Christopher Roberts, ei gydnabod am ei gyfraniad i addysg yng Ngwobrau Ysbrydoli! Tiwtoriaid 2026 yn ôl ym mis Mawrth.

PAWB WEDI GWISGO'N SMART YNG NGWOBRAU IT'S MY SHOUT!

Cafodd Gavin, Jason a Karl noson wych yn Seremoni Wobrwyo It's My Shout yn ICC Cymru yng Nghasnewydd. Fe wnaethon nhw fwynhau cerdded ar y carped coch, a siarad â'r cyflwynydd Rhodri Owen, y cyn-fradwr Andrew Jenkins, y cyflwynydd radio a theledu Jason Mohammad a chyflwynydd tywydd y BBC, Sabrina Lee. Roedd cael gwylio'r seremoni wobrwyo a gweld eu hunain a'r ffilm roedden nhw'n rhan ohoni, ar y sgrin fawr yn arbennig o gyffrous.

Enillodd 'Different Now', y ffilm roedd yr hyfforddeion y ffilm yn ecstras ynddi, y Ddrama Orau!

BYWYD NEWYDD I DDODREFN TŶ BRYNGARW

Gwnaeth Wood-B waith gwych yn adfer dodrefn patio yn Nhŷ Bryngarw, cyn y tymor prysur o briodasau. Roedd bwriad i brynu set newydd o ddodrefn, ond doedd dim angen gwneud hynny gan eu bod bellach yn edrych fel newydd diolch i waith caled y tim!



HAF GWYCH O FLODAU

Wrth i'r haf gyrraedd, roedd yr hyfforddeion yn brysur yn paratoi i werthu planhigion i'w plannu allan yn yr haf a basgedi hongian. Roedden nhw'n gweithio'n galed yn plannu a dyfrio ac roedden nhw bob amser wrth law gyda gwên i helpu cwsmeriaid. Mae'r profiadau ymarferol hyn yn rhoi cyfle i hyfforddeion ddatblygu sgiliau garddwriaethol a chyflogadwyedd ymarferol, gan fagu hyder, annibyniaeth ac ymdeimlad o gyfrifoldeb. Mae gallu gweld canlyniadau eu gwaith caled yn rhoi ymdeimlad gwirioneddol o gyflawniad ac yn helpu'r hyfforddeion i ddeall y gofal, yr amynedd a'r gwaith tîm sydd eu hangen i gynhyrchu planhigion i'n cwsmeriaid. Wrth i'r tywydd poeth barhau trwy gydol yr haf, gwnaeth yr hyfforddeion yn siŵr eu bod yn cadw'n cŵl dan do gyda digon o seibiannau i gael lolipops.

TAITH SAIN FFAGAN

Ym mis Mai, cawsom daith anhygoel i Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan. Roedd yn wych mynd â'r hyfforddeion i atyniad mawr i ymwelwyr, ac roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr. Dyfyniad y dydd oedd "Rydw i wedi cael cymaint o hwyl heddiw!" a dyna beth sy'n bwysig.

Hoffem ddiolch yn arbennig i dîm y parcmyrn ym Mharc Gwledig Bryngarw, a ymunodd â ni ar y daith a helpu i'w gwneud yn bosibl!

RHAGOR O WIRFODDOLI!

Bu Gareth, Iwan a Ryan yn brysur yn helpu ar Ddiwrnod y Gwenyn ym Mharc Gwledig Bryngarw, gan roi help llaw a chymryd rhan yn holl fwrllwm y digwyddiad.

Roedd yn gyfle gwyb i'r hyfforddeion fynd allan i'r parc, cefnogi'r diwrnod a dysgu mwy am y rôl bwysig sydd gan wenyng a pheillwyr eraill yn ein hamgylchedd.

AR Y SGRIN FAWR!

Aeth dau o'r hyfforddeion, Jack a Gavin, gyda'u teuluoedd, a gwesteion arbennig, i ddangosiad o raglen ddogfen a gynhyrchwyd gan It's My Shout yn Neuadd y Dref Maesteg.

Jack a Gavin oedd sêr y rhaglen ddogfen, a oedd yn rhoi cipolwg ar eu bywydau y tu allan i B-Leaf a Wood-B. Cawsom weld Jack yn mynd i ymarfer côr a darganfod popeth am ei angerdd am Elvis Presley, a dangosodd Gavin ei sgiliau pêl-droed gwyb wrth i ni ei wyllo yn ymarfer a chlywed gan ei hyfforddwyr.

Diolch i Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am ariannu'r digwyddiad.



WOOD-B YN CYDWEITHIO AR 'PROSIECT MALCOLM'

Roedd Wood-B yn falch o gydweithio â Choleg Penybont ar 'Prosiect Malcolm', menter iechyd, lles a chynaliadwyedd integredig.

Cafodd y tîm y dasg o greu bwrdd gwledda cymunedol, wedi'i greu yn arbennig i ddod â myfyrwyr, aelodau o'r gymuned, a chyflogwyr lleol at ei gilydd. Fe wnaethon nhw hefyd greu meinciau i gyd-fynd â'r byrddau a adeiladwyd i fffitio'r lle gwledda, a bwrdd paratoi popty pizza i gyd-fynd â'r ffwrn goed.

I hyfforddeion Wood-B, roedd y prosiect yn gyfle gwerthfawr i gael profiad ymarferol o weithio i friff yn y byd go iawn. Mae cymryd rhan yn y broses wedi helpu hyfforddeion i ddatblygu sgiliau gwaith coed ymarferol, hyder, gwaith tîm a galluoedd datrys problemau, gan weld effaith gweladwy eu gwaith. Mae gwybod y bydd y dodrefn y gwnaethon nhw helpu i'w greu yn dod yn rhan o'r lle a rennir i'r coleg a'r gymuned ehangach yn rhoi ymdeimlad gwirioneddol o falchder a chyflawniad i hyfforddeion.

CARTREFI I DDRAENOGOD HAPUS

Roedd Wood-B yn brysur dros yr haf yn gwneud tai o ddraenogod i ddarparu lle diogel, cysgodol i ddraenogod orffwys, nythu a gaeafgysgu yng ngerddi pobl dros y gaeaf. Roedden nhw ar werth yn siop B-Leaf ac roedden nhw'n boblogaidd iawn.

GWIRFODDOLI YN Y THEATR AWYR AGORED

Gwnaeth Gavin, Connor ac Iwan gynorthwyo drwy wirfoddoli ym mherfformiad Theatr Awyr Agored The Jungle Book ym Mharc Gwledig Bryngarw. Fe wnaethon nhw waith gwych yn dosbarthu ffurfenni adborth a gwneud yn siŵr bod ymwelwyr yn cael amser da!

Yng ngeiriau Iwan: "Rwy'n hoffi gwirfoddoli oherwydd rwy'n hoffi helpu'r gymuned!"





ADBORTH GAN GWSMERIAID

“Roeddwn i wedi clywed am B-Leaf gan ffrind a argymhellodd brynu ein planhigion yma. Doeddwn i ddim yn gwybod ei bod yn elusen a'i bod wedi gwneud gwaith mor dda. Roeddwn i eisiau prynu ychydig o gompost, a chefais fy helpu i'w roi yn y car gan rai o'r oedolion. Mae'n wych bod ganddyn nhw gymaint o falchder yn eu gwaith ac mae'r ganolfan arddio yn rhoi pwrpas go iawn iddyn nhw.”

Caroline, Pen-y-bont ar Ogwr

“Rwyf wedi ymweld â B-Leaf sawl gwaith, rwy'n arddwr brwd, ac rwyf wedi dechrau tyfu llysiau yn ddiweddar. Mae planhigion llysiau B-leaf yn werth gwyth am arian, ac wrth eu prynu nhw, rwyf hefyd yn cefnogi achos da.

Daliwch ati â'r gwaith da!”

Daniel, Abercynffig

HYFFORDDEION

“Mae Wood-B a B-Leaf yn wych ac yn gwneud i mi deimlo'n hapus pan fyddaf yn mynd yno.”

Jack, Hyfforddai

“Mae Wood-B a B-Leaf yn amhrisiadwy wrth gynnig gweithgaredd yn yr awyr agored, cynyddu annibyniaeth a hyder a hefyd darparu cyfle cymdeithasol i bobl ag anghenion ychwanegol a fyddai efallai fel arall â bywydau braidd yn unig.”

Anita, mam Jack

“Rydw i mor falch o sut mae Iwan wedi dod ymlaen ers ymuno â B-Leaf. Mae wrth ei fodd yn mynd yno ac mae'n ei ystyried yn swydd, fel mae e bob amser yn dweud wrtha i. Mae pawb mor gefnogol a chyfeillgar. Mae hyder Iwan wedi tyfu'n aruthrol ers dechrau yno ac mae bob amser yn dweud wrtha i am y pethau y mae'n dwlu eu gwneud tra mae e yno. Mae B-Leaf wedi helpu annibyniaeth Iwan drwy weithio'n galed ac mae ei hyder wedi datblygu'n fawr, drwy gymysgu gyda phawb. Diolch pawb mae'n golygu llawer i ni.”

Alison, mam Iwan

“Mae Ellen yn mwynhau mynd i B-Leaf. Mae hi'n cael ei chynnwys yn llawn ym mhob tasg, ac rwy'n gwerthfawrogi'r holl staff am y cyfleoedd maen nhw wedi'u rhoi iddi, boed hynny o gwmpas Parc Bryngarw, yn yr ystafell ddosbarth, neu yn Neuadd y Dref Maesteg, maen nhw'n cyfoethogi ei bywyd”

Narda, mam Ellen

“Roeddwn i'n hoffi helpu yn ystod Diwrnod y Gwenyn. Rydw i eisiau gwneud mwy i helpu ond rwy'n ei chael hi'n anodd siarad. Roeddwn i'n hoffi'r cwrs, a helpodd fi i ddweud helo wrth bobl. Byddaf yn ymarfer gyda fy ffrind Jack.”

Ryan, Hyfforddai

“Roeddwn i'n hoffi bod yn seren ffilm ond roedd ychydig yn hir. Cyn y gwobrau, siaradais gyda Dave, Jason ac Emma yn Wood-B, a ddywedodd y gallwn i ei wneud e, y byddai Emma a fy ffrindiau gyda mi, ac y gallwn ddod â Mam a Dad. Roeddwn i'n hapus fy mod wedi aros am y noson, ac rydw i eisiau gwneud mwy o bethau.”

Karl, Hyfforddai

